# YR AIL RAN - WEDI HYN

## 16. Y TRYDYDD DYDD

**Darllen**: Marc 16: 1-8 (9-18),
Mathew 28: 1-15;
Luc 24: 1-12;
Ioan 20: 1-10

Adroddir hanes atgyfodiad Iesu Grist gan y pedwar efengylydd. Ceir gwahaniaethau rhwng y gwahanol hanesion, gan beri gofid i rai. Peth cyffredin i ni yw gwrando ar bobl yn trafod yr un gêm rygbi neu raglen deledu gyda gwahaniaethau mawr rhwng disgrifiadau ac esboniadau'r naill a'r llall; anodd credu iddynt wylio'r un digwyddiad. Dyna a geir gyda'r efengylau: y mae gan y pedwar efengylydd eu negeseuon arbennig i'w rhannu gyda'u bwyslais personol eu hunain. Ni welodd yr un ohonynt yr atgyfodiad yn digwydd. Yn wir, ni fu'r un tyst i'r digwyddiad mawr hwn. Beth a wyddom ni gan hynny? Gwyddom fod Mathew, Marc a Luc yn defnyddio'r un ymadrodd, rhywbeth anghyffredin iawn yn eu hysgrifennu: '*Y mae wedi ei gyfodi! Nid yw yma!'*

Y peth cyntaf sydd ganddynt i'w gyhoeddi yw bod y bedd yn wag - yn wag y bore hwnnw ac yn wag am byth. '*Nid yw yma!*' Chwarae teg i'r gwragedd unwaith eto; tra bod yr un-ar-ddeg dyn yn sgwlcan mewn ofn yn yr Oruwch Ystafell, aethant hwy - Mair Magdalen, Mair, Mam Iago a Salome i'r ardd at fedd newydd Joseff o Arimathea. Digon posibl mai Joseff oedd perchennog yr ardd hefyd. Dyletswydd cariad a'i gyrrodd yno yn nhywyllwch oriau mân y bore er mwyn gwneud y gymwynas olaf i'w hannwyl Arglwydd. Aethant yno i baratoi ei gorff ar gyfer ei orffwys olaf. Ar y ffordd, cofio gwnaethant fod yna faen ar draws y bedd - un llawer rhy fawr a thrwm iddynt hwy ei symud, ond ymlaen yr aethant. Ond, wedi iddynt gyrraedd, gwelsant fod eu problem wedi ei datrys. Roedd y maen wedi ei dreiglo ymaith a'r bedd yn agored. Aethant i mewn i chwilio am y corff ond dywedodd dyn ifanc wrthynt nad oedd '*Iesu, y gur o Nasareth a groeshoeliwyd, yno. Y mae wedi ei gyfodi; nid yw yma; dyma'r man lle gosodasant ef.*' Digon hawdd i ni ddeall eu camgymeriad, a ninnau'n dueddol o edrych am Iesu mewn

mannau lle nad yw, yn arbennig gan fynd i edrych amdano yn ein gorffennol. Bu yn y gorffennol – dyna dystiolaeth y saint – ond nid yno y mae bellach. Ffaith bresennol, nid hen hanes yn unig yw'r atgyfodiad. Mae Crist yn fyw heddiw! Nid rhyfeddu at yr hwn a fu yw pwrpas ffydd, pa mor unigryw bynnag yw hynny, ond dathlu bywyd Crist heddiw, bywyd tragwyddol sydd ar gael yn awr, i ninnau fyw yma ar y ddaear ac yn ei gyflawnder yn Nheyrnas Duw. Fel y gwragedd, ein hawydd ni, i bob golwg, yw gofalu am Iesu yn ei fedd, gan gadw'n hadeiladau a'n ffurfiau eglwysig, ac addoliad a'n diwinyddiaeth yn daclus. Digwyddiad pwysig pob blwyddyn ym Madagascar yw troi esgyrn y cyndadau. Perygl rhai ohonom yw anghofio nad oes gan Grist esgyrn i ni eu troi; mae ei fedd yn wag ac wedi bod felly ers ugain canrif. Mae'n fyw yn awr - grym cariad Duw ar y ddaear. Yn ôl yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, disgrifiodd Martin Niemoller, carcharor Hitler dan y Trydydd Reich, ei gyd-gristnogion yn yr Almaen fel 'anffyddwyr ymarferol'. Beth amdanom ni, Cristnogion Cymru heddiw?

Mae Crist wedi ei atgyfodi! Mae'n fyw! Ond sut allwn ni gredu hynny? Yn ôl Marc, aeth y gwragedd at y bedd mewn tristwch dwfn, ingol. Dywedwyd wrthynt ei fod yn fyw ac aethant o'r bedd '*yn crynu o arswyd'*. Rhoddwyd iddynt orchymyn i fynd a dweud wrth y disgyblion ond gwrthod ufuddhau a wnaethant gan gadw'r Newyddion Da iddynt hwy eu hunain. Dyna ddiwedd gwreiddiol efengyl Marc. Faint o ddweud a gwneud y Newyddion Da sydd i'w gweld heddiw yn ein plith?

**Gweddi:**

*Hollalluog a thragwyddol Dduw, addolwn di mewn llawenydd.*
*A llawenhawn fod yr hwn a fu'n groeshoeliedig, marw ac wedi ei gladdu,*
*yn fyw byth mwy, ein Harglwydd sy'n atgyfodedig ac yn teyrnasu.*
*Wrth i ni ddathlu ei fuddugoliaeth,*
*gweddïwn am i'w lawenydd drigo yn ein calonnau*
*ac i'n bywydau ddatgan ei glod.*
*Iddo ef y bo'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.*
(*Frank Colquhoun)*